



# **Canllawiau i gynhyrchwyr llaeth yfed amrwd i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl**

**Dyddiad cyhoeddi: 5 Mawrth 2020**

**Adolygwyd diwethaf: 2 Ebrill 2020**

## Hanes diwygio

<b>Diwygiwyd</b>	<b>Diben y diwygiad a rhif y paragraff</b>	<b>Diwygiwyd gan</b>
Mawrth 2020	Fersiwn 1	Christine Kelleher
Ebrill 2020	Newidiadau i baragraffau 45-50 a 55-68	Christine Kelleher

## Crynodeb

<b>Cynulleidfa darged:</b>	Gweithredwyr busnesau bwyd sy'n cynhyrchu llaeth yfed amrwd o bob rhywogaeth
<b>Pa rai o wledydd y DU y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt?</b>	Cymru a Lloegr
<b>Diben:</b>	Bwriad y canllawiau hyn yw darparu cyngor ar y gofynion cyfreithiol a'r arfer gorau mewn perthynas â chynhyrchu a rhoi llaeth yfed amrwd i'w yfed gan bobl ar y farchnad o'r holl rywogaethau. Nid yw'r canllawiau hyn yn ymestyn i gynhyrchion llaeth a wneir gan ddefnyddio llaeth yfed amrwd.
<b>Statws cyfreithiol:</b>	Cynhyrchwyd y ddogfen hon i gynnig arweiniad ar ofynion cyfreithiol deddfwriaeth diogelwch a hylendid bwyd sy'n berthnasol i'r broses o gynhyrchu a dosbarthu llaeth yfed amrwd. Mae rhestr lawn o'r ddeddfwriaeth berthnasol i'w gweld yn Atodiad 1. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau.
<b>Geiriau allweddol:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Llaeth yfed amrwd</li><li>• Cynnyrch llaeth</li><li>• Hylendid a diogelwch bwyd</li><li>• Labelu a chyfansoddiad</li><li>• Pathogenau</li></ul>
<b>Dyddiad adolygu</b>	Mawrth 2021

## **Cynnwys**

<b>Canllawiau I Gynhyrchwyr Llaeth .....</b>	<b>1</b>
<b>Yfed Amrwd I'w Yfed .....</b>	<b>1</b>
<b>Yn Uniongyrchol.....</b>	<b>1</b>
<b>Gan Bobl.....</b>	<b>1</b>
<b>Hanes Diwygio .....</b>	<b>2</b>
<b>Crynodeb.....</b>	<b>3</b>
<b>Cynnwys.....</b>	<b>4</b>
<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>6</b>
<b>Cynulleidfa Darged.....</b>	<b>7</b>
<b>Statws Cyfreithiol Y Canllawiau Hyn.....</b>	<b>7</b>
<b>Diffiniadau .....</b>	<b>8</b>
<b>System Rheoli Diogelwch Bwyd .....</b>	<b>11</b>
<b>Diogelwch Microbiolegol .....</b>	<b>12</b>
<b>Cyfrif Platiau A Choliformau .....</b>	<b>12</b>
<b>Cyfrif Celloedd Somatig A Chyfrif Platiau .....</b>	<b>13</b>
<b>Pathogenau .....</b>	<b>16</b>
<b>Listeria Monocytogenes.....</b>	<b>17</b>
<b>Camau Unioni Yn Dilyn Canlyniadau Anfoddhaol .....</b>	<b>18</b>
<b>Profion Dilysu Yr Asb.....</b>	<b>19</b>
<b>Lleiafswm Gwydnwch Ac Oes Silff .....</b>	<b>19</b>
<b>Gwrthfotigau .....</b>	<b>22</b>

<b>Statws Twbercwlosis.....</b>	<b>23</b>
<b>Gofynion Cyflenwad Dŵr .....</b>	<b>26</b>
<b>Labelu Llaeth Yfed Amrwd.....</b>	<b>27</b>
<b>Gweithdrefnau Tynnu/Galw Cynnyrch Yn Ôl.....</b>	<b>29</b>
<b>Adolygiad .....</b>	<b>30</b>
<b>Manylion Cysylltu .....</b>	<b>30</b>
<b>Atodiad I: Deddfwriaeth A Chanllawiau Perthnasol.....</b>	<b>32</b>
<b>Atodiad Ii: Tabl Yn Dangos Rhaniad Dyletswyddau Gorfodi A Rheolaethau Swyddogol Rhwng Yr Asb Ac Awdurdodau Lleol .....</b>	<b>34</b>
<b>Atodiad Iii: Llwybrau Gwerthu Llaeth Bwch I'w Yfed Yn Amrwd.....</b>	<b>35</b>
<b>Atodiad Iv: Rhestr O Dermau.....</b>	<b>37</b>

## Cyflwyniad

1. O ystyried ei oblygiadau iechyd posibl, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ystyried bod llaeth yfed amrwd yn fwyd peryglus. Felly mae mesurau llymach ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Os na fydd y mesurau hyn yn effeithiol, bydd yr ASB yn ystyried a oes angen mesurau rheoleiddio neu ddeddfwriaethol pellach ar gyfer y sector llaeth yfed amrwd.
2. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cynhyrchwyr llaeth yfed amrwd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac felly cynnydd sylweddol yn y llaeth yfed amrwd sy'n cael ei roi ar y farchnad. Rhwng 2015 a 2017 bu pump achos yn ymwneud â salwch mewn pobl yn gysylltiedig â llaeth yfed amrwd, tra cyn 2015 ni chafwyd unrhyw achosion am dros 12 mlynedd. Yn yr achosion hyn, cofnodwyd cyfanswm o 103 o achosion, a chadarnhawyd 40 ohonynt mewn labordy. Aeth plant yn sâl ym mhob un o'r pump achos a chafodd rhai eu hanfon i'r ysbyty.
3. Mae'r ASB wedi cynhyrchu'r ddogfen ganllaw hon i helpu gweithredwyr busnesau bwyd sy'n cynhyrchu llaeth yfed amrwd i reoli'r risgiau hyn a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
4. Cyfrifoldeb gweithredwr y busnes bwyd yw sicrhau bod y llaeth yfed amrwd y mae'n ei roi ar y farchnad yn ddiogel i'w yfed. Rhaid i bob cynhyrchwr llaeth o'r fath gadw at y gofynion cyfreithiol.
5. Er na fu unrhyw newidiadau deddfwriaethol, mae'r ASB yn fwy eglur o ran y mesurau rheoli y dylai cynhyrchwyr eu gweithredu fel y gallant ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a cheisio sicrhau bod eu cynnyrch mor ddiogel â phosibl. Y ddau brif fesur rheoli sy'n cael eu pwysleisio yn y canllawiau hyn yw:
  - bod â System Rheoli Diogelwch Bwyd effeithiol a dilys ar waith, sy'n ofyniad cyfreithiol
  - ymrwymo i arfer gorau wrth gynnal profion rheolaidd ar gyfer pathogenau mewn llaeth yfed amrwd
6. Hyd yn oed â mesurau rheoli da ar waith, mae llaeth yfed amrwd yn parhau i fod yn gynnyrch sydd â risg gynhenid. Mae'r ASB yn cynghori y gall llaeth yfed amrwd gynnwys bacteria niweidiol sy'n gallu achosi gwenwyn bwyd. Ni ddylai defnyddwyr sydd â system imiwnedd wan ac sy'n arbennig o agored i wenwyn bwyd yfed llaeth, colostrwm na hufen heb eu pasteurio, na chynhyrchion wedi'u gwneud o laeth amrwd. Mae'r grwpiau sy'n agored i niwed yn cynnwys

plant, menywod beichiog, pobl hŷn a'r rhai sy'n sâl, sydd â salwch cronig a/neu sydd â chyflwr yn ymwneud â'u himiwnedd.

## Cynulleidfa darged

7. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd sy'n cynhyrchu llaeth yfed amrwd o bob rhywogaeth i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl. Er nad yw'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at awdurdodau gorfodi, gallant gyfeirio atynt i lywio eu rheolaethau swyddogol.
8. At ddibenion y canllawiau hyn, mae 'gweithredwyr busnesau bwyd' yn cyfeirio at gynhyrchwyr, gan gynnwys ffermwyr, sy'n cynhyrchu llaeth yfed amrwd o unrhyw rywogaeth i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl.

## Statws cyfreithiol y canllawiau hyn

9. Paratowyd y canllawiau hyn i ddarparu cyngor ar:
  - ofynion cyfreithiol Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar Reoliadau Hylendid Bwydydd, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd (Lloegr) 2013 a rheoliadau cymwys eraill fel y manylir yn y rhestr a ddarperir yn Atodiad I.
  - canllawiau ar arfer gorau. **Nid** yw'n ofyniad cyfreithiol i chi ddilyn canllawiau arfer gorau. Er bod rhai agweddau ar y canllawiau yn arfer gorau, gallant fod yn rhan hanfodol o'ch system rheoli diogelwch bwyd, sy'n ofyniad cyfreithiol.
10. Fe wnaeth y Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Ionawr 2020. Mae yna gyfnod pontio nawr tan ddiwedd 2020 tra bod y DU a'r UE yn trafod trefniadau pellach. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd cyfraith diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE yn parhau i fod yn berthnasol. Mae Deddf (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd 2018 yn nodi, o 1 Ionawr 2021, y bydd deddfwriaeth benodol sy'n gymwys yn uniongyrchol i'r UE yn cael ei throsi'n gyfraith y DU.
11. Ni all y canllawiau hyn ar y gofynion cyfreithiol drin a thrafod pob sefyllfa, ac fe all fod angen i chi ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol eich hun i weld sut y mae'n berthnasol i'ch sefyllfa chi. Bydd dilyn y canllawiau yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ddilyn canllawiau arfer gorau. Nodir yr holl ganllawiau ar arfer gorau mewn blychau cysgodol, gyda phennawd Arfer Gorau:

## Arfer gorau

Mae'r holl ganllawiau arfer gorau wedi'u nodi'n glir yn y ddogfen hon yn y fformat hwn.

12. Er bod rhai agweddau ar y canllawiau hyn yn arfer gorau, mae'r sylfaen dystiolaeth yn nodi bod angen gwell mesurau rheoli er mwyn gallu rheoli'r risg sydd ynghlwm â llaeth yfed amrwd yn well. Un agwedd bwysig ar y gwelliannau hyn yw'r angen i weithredwyr busnesau bwyd gymryd mwy o gyfrifoldeb i sicrhau bod llaeth yfed amrwd y maent yn ei gynhyrchu yn ddiogel pan fyddant yn ei gyflenwi i'r defnyddiwr terfynol yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r risg y mae'r cynnyrch yn ei beri i grwpiau agored i niwed. Cafodd y mater hwn ei ystyried gan Fwrdd yr ASB, ac mae'r canlynol yn ddyfyniad o bapur y Bwrdd o Fehefin 2018:

“Rydym ni'n cynnig datblygu set o werthoedd [gan gynnwys nifer a difrifoldeb yr achosion yn gysylltiedig â llaeth yfed amrwd a chyfran y samplau dangosyddion hylendid a fethwyd] a byddai mynd yn groes i'r gwerthoedd hyn yn arwain at yr ASB yn ystyried mesurau pellach, gan gynnwys fel sy'n briodol ar lefel y Bwrdd, pe bai angen hynny, gyda'r dewisiadau o gamau gweithredu pellach, gan gynnwys deddfwriaeth os oes angen, i ddiogelu iechyd y cyhoedd.”

## Diffiniadau

13. Mae geirfa lawn o ddiffiniadau cyfreithiol a themau technegol eraill a ddefnyddir yn y canllawiau hyn wedi'i darparu yn Atodiad V.

## Cofrestru

14. Mae Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, Erthygl 6 yn ei gwneud yn ofynnol i bob busnes sy'n cynhyrchu llaeth neu'n gwerthu llaeth yfed amrwd fod wedi'i gofrestru fel busnes bwyd. Rhaid i gynhyrchwyr newydd lenwi pecyn cofrestru busnes bwyd sydd ar gael gan yr ASB. Gweler y manylion isod. Bydd yr ASB yn hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol o'ch cofrestriad.
15. Mae Arolygwyr Hylendid Llaeth yr ASB ac awdurdodau lleol yn cynnal rheolaethau swyddogol hylendid bwyd mewn safleoedd cynhyrchu llaeth sy'n cyflenwi llaeth yfed amrwd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol. Mae gan yr ASB a'r awdurdod lleol gyfrifoldebau gorfodi am wahanol agweddau ar reolaethau swyddogol mewn perthynas â chynhyrchu llaeth yfed amrwd.



Mae Arolygwyr Hylendid Llaeth yr ASB yn cynnal arolygiadau hylendid mewn safleoedd cynhyrchu o bob rhywogaeth trwy gyfres o archwiliadau ac arolygiadau hylendid ar y cyd, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn fel mater o drefn. Bydd yr awdurdod lleol yn cynnal arolygiadau o'r gweithrediadau potelu a llenwi llaeth yfed amrwd ac agweddau perthnasol eraill ar y gweithrediadau hyn. Mae rhagor o fanylion am y rhaniad yn y gwaith gorfodi yn y sefydliadau hyn i'w gweld yn Atodiad II.

16. Ar ôl cofrestru, bydd yr ASB yn hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw weithrediadau sy'n dod o dan ei chyfrifoldeb rheolaethau swyddogol. Yna, bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu â chi er mwyn trefnu i asesu gweithrediadau y mae ganddo awdurdodaeth drostynt. Bydd yr awdurdodau gorfodi yn cysylltu â'i gilydd ac yn cydlynu ymweliadau pan fo hynny'n briodol.
17. [Cyhoeddir manylion cofrestru pob sefydliad llaeth yfed amrwd](#), ynghyd â'u sgôr gydymffurfio yn dilyn yr arolygiad hylendid llaeth diweddaraf, ar wefan yr ASB.
18. Mae Erthygl 6 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y busnes bwyd ddiweddarau'r Awdurdod Gorfodi am unrhyw newid sylweddol i'w fusnes. Os yw eich safle eisoes wedi'i gofrestru fel busnes bwyd a'ch bod am roi llaeth yfed amrwd ar y farchnad, mae hyn yn cael ei ystyried yn newid sylweddol i'ch gweithgarwch cyfredol. Felly mae'n ofynnol i chi hysbysu'r ASB o'ch bwriad i ddechrau gwerthu llaeth yfed amrwd trwy gysylltu â thîm Cofrestru a Chymeradwyo'r ASB gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Unwaith eto, bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei rannu â'r awdurdod lleol perthnasol.

**Asiantaeth Safonau Bwyd** (Tîm Cymeradwyo a Chofrestru)

Kings Pool

Peasholme Green

Caerefrog

**YO1 7PR**

Ffôn: 01904 232060

E-bost: [approvals@food.gov.uk](mailto:approvals@food.gov.uk)

[Gellir gweld ffurflenni cais ar wefan yr ASB.](#)

**Arfer gorau**

Gofynnir i bob safle cynhyrchu newydd gofrestru gyda'r ASB o leiaf 28 diwrnod cyn eu bod yn bwriadu dechrau gweithredu.

Argymhellir bod safleoedd cynhyrchu presennol yn hysbysu'r ASB 14 diwrnod cyn eu bod yn bwriadu rhoi llaeth yfed amrwd ar y farchnad. Mae hyn er mwyn caniatáu i arolygwr hylendid llaeth ymweld i sicrhau bod gweithdrefnau digonol ar waith a'u bod yn cael eu gweithredu i gynhyrchu cynnyrch diogel. Os bydd gweithredwr y busnes bwyd yn methu â rhoi rhybudd ymlaen llaw a bod arolygiad dilynol gan yr Awdurdod Gorfodi yn canfod bod gweithdrefnau annigonol ar waith neu fod cynnyrch anniogel yn cael ei gynhyrchu, gellir cymryd camau ffurfiol yn erbyn gweithredwr y busnes bwyd.

### **Ar ôl cofrestru/hysbysu am arolygiadau o safleoedd cynhyrchu llaeth**

Ar ôl i chi naill ai gofrestru fel busnes newydd neu hysbysu'r ASB eich bod yn bwriadu rhoi llaeth yfed amrwd ar y farchnad, mae'r ASB yn argymhell yn gryf na ddylech ddechrau gwerthu nes bod arolygwr hylendid llaeth wedi cynnal ymweliad ac asesu eich mesurau rheoli diogelwch bwyd. Bydd yr ymweliad hwn yn digwydd cyn pen 14 diwrnod ar ôl i chi hysbysu.

## **Beth i'w ddisgwyl o'ch ymweliad cyntaf gan arolygwr hylendid llaeth**

19. Nod yr ymweliad cychwynnol yw asesu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd ar gyfer y gweithgarwch hwn, yn benodol:
  - gweithredu System Rheoli Diogelwch Bwyd effeithiol i reoli peryglon diogelwch bwyd
  - tystiolaeth bod y system hon wedi'i dilysu'n ddigonol i sicrhau ei bod yn ddigonol
  - tystiolaeth bod gweithdrefnau gwirio ar waith i ddangos bod y system yn gweithredu'n effeithiol a bod y cynnyrch yn ddiogel
  - rheoli tymheredd y cynnyrch terfynol
  - pennu oes silff
  - labelu llaeth yfed amrwd a llwybrau gwerthu arfaethedig
  - amodau hylendid fferm cyffredinol, cyfleusterau hylendid, math o barlwr/godro, gweithrediadau godro, glendid anifeiliaid
  - rheolaeth gyffredinol y fferm a hyder mewn rheolaeth
  - mae'r systemau sydd ar waith yn effeithiol ac mae mesurau rheoli diogelwch bwyd priodol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y llaeth yfed amrwd yn ddiogel i'w yfed

- mae gweithdrefnau a dogfennau yn eu lle i sicrhau nad yw llaeth o anifeiliaid sydd wrthi'n cael triniaeth feddygol yn cael ei roi ar y farchnad
  - gweithdrefnau i nodi anifeiliaid na ddylai eu llaeth fynd i'w yfed gan bobl
  - mae gweithdrefnau rheoli plâu ar waith
  - mae staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol ar gyfer eu rôl
  - cyfanwydd strwythurol y safle, yn enwedig yr ardal botelu
  - gweithdrefnau glanhau a'r cemegion a ddefnyddir
  - tystiolaeth bod dŵr sy'n cael ei ddefnyddio o'r safon ofynnol
20. Pwrpas ymweliad yr Awdurdod Gorfodi yw gwirio eich cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol, a chymryd camau priodol lle na ellir dangos cydymffurfiaeth yn ddigonol. Gweithredwr y busnes bwyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod llaeth yfed amrwd yn ddiogel ac i ddangos bod arferion a gweithdrefnau digonol ar waith i gyflawni hyn.

### **System Rheoli Diogelwch Bwyd**

21. Gweithredwr y busnes bwyd yn unig sy'n gyfrifol am gynhyrchu a chyflenwi bwyd diogel, gan gynnwys llaeth yfed amrwd. Gall methu â gweithredu systemau digonol arwain at gamau gorfodi.
22. Mae Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, Atodiad I, Rhan A yn gosod y cyfrifoldeb ar weithredwr y busnes bwyd i sicrhau nad yw ei llaeth yn peri risg iechyd i ddefnyddwyr. Rhaid iddo ddangos i'r Awdurdod Gorfodi pa fesurau a gymerwyd i sicrhau bod ganddo System Rheoli Diogelwch Bwyd ar waith sydd wedi'i chynllunio i nodi a rheoli'r holl beryglon perthnasol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu llaeth yfed amrwd.
23. Bydd cael system gofnodedig yn sicrhau bod gweithredwr y busnes bwyd wedi nodi'r peryglon yn ei brosesau a bydd yn ei gynorthwyo i weithredu'r rheolaethau angenrheidiol i geisio sicrhau cynnyrch diogel. Bydd hefyd yn helpu gweithredwr y busnes bwyd i ddangos sut maent yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch a hylendid bwyd.
24. Er mwyn cyflawni eu rhwymedigaeth, mae'r ASB o'r farn y dylai gweithredwyr busnesau bwyd ddilyn y saith cam hyn wrth ddylunio eu System Rheoli Diogelwch Bwyd:

### **Camau'r System Rheoli Diogelwch Bwyd**

1. Nodi'r peryglon yn y prif weithrediad cynhyrchu. Nodi'r hyn a allai fynd o'i le, gan olygu'r peryglon y mae'n rhaid eu hatal, eu dileu neu eu lleihau i lefel dderbyniol
2. Nodi pa reolaethau sy'n hanfodol i sicrhau bod y peryglon hynny'n cael eu rheoli a bod y llaeth yfed amrwd a gynhyrchir yn ddiogel
3. Gosod paramedrau ar gyfer pob un o'r pwyntiau hanfodol hyn sy'n rhoi gwybod i'r gweithredwr pan nad yw'r peryglon dan reolaeth
4. Monitro'r peryglon ar y pwyntiau hanfodol hyn fel ei bod yn hysbys pan nad yw'r peryglon dan reolaeth Bydd hyn yn helpu i atal cynnyrch anniogel rhag cael ei roi ar y farchnad
5. Gweithredu pan nad yw'r peryglon dan reolaeth Penderfynu beth i'w wneud, sut i'w unioni a sut i'w atal rhag digwydd eto
6. Profi neu ddilysu y byddai'r System Rheoli Diogelwch Bwyd yn effeithiol ar ôl ei rhoi ar waith. Sefydlu gweithdrefnau i ddangos y gall y system reoli'r peryglon. Sefydlu gweithdrefnau i benderfynu bod y system yn cael ei chymhwysu'n iawn
7. Cadw dogfennau a chofnodion

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a gall yr arolygwr hylendid llaeth drafod opsiynau eraill gyda chi adeg yr arolygiad.

### **Arfer gorau**

Os nad oes gan weithredwr y busnes bwyd yr wybodaeth na'r profiad i gynhyrchu a chofnodi System Rheoli Diogelwch Bwyd effeithiol, dylai ofyn am gyngor arbenigol.

Gellir [dod o hyd i gyngor a chanllawiau pellach ar ddatblygu System Rheoli Diogelwch Bwyd gofnodedig](#) ar wefan yr ASB.

## **Diogelwch microbiolegol**

### **Cyfrif platiau a choliformau**

25. O dan Atodlen 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013, mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau bod llaeth yfed amrwd yn bodloni'r safonau microbiolegol canlynol:

- cyfrif platiau ar 30°C (CFU/ml) ≤ 20,000
- coliformau (CFU/ml) <100

26. Mae unrhyw berson sy'n gwerthu llaeth yfed amrwd sy'n torri'r paramedrau uchod yn cyflawni trosedd.

### Arfer gorau

Argymhellir gweithredwyr busnesau bwyd i samplu a phrofi eu llaeth yfed amrwd ar gyfer yr organebau dangosol a restrir uchod fel rhan o'u gweithdrefnau dilysu i ddangos bod eu System Rheoli Diogelwch Bwyd yn gweithio'n effeithiol.

Os nad yw cynnyrch gweithredwyr busnesau bwyd yn bodloni'r safonau hyn, gallant geisio gwella canlyniadau profion dilynol trwy sicrhau bod eu gwartheg mewn iechyd da a bod iechyd a hylendid y pwrs (*udder*) yn cael ei gynnal. Gallant hefyd wella lefelau glendid trwy gydol eu proses a sicrhau bod arferion hylan da yn cael eu cynnal. I gael rhagor o fanylion am arferion hylendid da, darllenwch y [canllawiau i gynhyrchwyr llaeth ar wefan yr ASB](#).

Os yw canlyniad sampl yn methu'r paramedrau hyn, mae methiant yn y mesurau rheoli ac efallai na fydd y llaeth yfed amrwd yn ddiogel i'w yfed. Ar ôl i sampl fethu, argymhellir bod gweithredwr y busnes bwyd yn rhoi'r gorau i ddsbarthu llaeth yfed amrwd nes bod camau cywirol wedi'u cymryd a bod canlyniadau sampl dilynol yn dangos bod y broses yn ôl o dan reolaeth a bod y cynnyrch o fewn paramedrau cyfreithiol.

Ar ôl cael canlyniad sampl wedi methu, bydd yr ASB yn cynnal ymchwiliad llawn, ar y cyd â'r awdurdod lleol lle bo hynny'n briodol. Pan ddarganfyddir arferion a gweithdrefnau annigonol ac unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio, bydd gweithredwr y busnes bwyd yn cael gwybod a bydd camau gorfodi yn cychwyn, gan ddilyn dull graddedig. Bydd yr Awdurdod Gorfodi perthnasol yn cymryd samplau dilynol a bydd unrhyw samplau sy'n methu yn arwain at gamau gorfodi.

## Cyfrif celloedd somatig a chyfrif platiau

27. Yn ogystal â chydymffurfio â gofynion penodol ar gyfer llaeth yfed amrwd a nodir mewn rheoliadau cenedlaethol, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer llaeth amrwd a nodir yng nghyfraith yr UE.

Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran IX, Pennod I, Rhan III yn nodi bod yn rhaid i bob llaeth amrwd fodloni'r gofynion canlynol ar gyfer cyfrif celloedd somatig a chyfrif platiau (ar 30°C) waeth a yw'r llaeth wedi'i fwriadu ar gyfer prosesu pellach neu i'w yfed yn amrwd:

### **Llaeth buwch amrwd**

Cyfrif Celloedd Somatig – Rhaid i'r cyfartaledd geometrig treigl fod yn hafal neu'n is na 400,000 y ml (dros gyfnod o dri mis, gydag o leiaf un sampl y mis)

Cyfrif Platiau – Rhaid i'r cyfartaledd geometrig treigl fod yn hafal neu'n is na 100,000 y ml (dros gyfnod o ddau fis, gydag o leiaf 2 sampl y mis)

### **Llaeth amrwd o rywogaethau eraill**

Cyfrif celloedd somatig – Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i samplu ar gyfer cyfrif celloedd somatig

Cyfrif platiau ar gyfer yr holl laeth amrwd – Rhaid i'r cyfartaledd geometrig treigl fod yn hafal neu'n is na 1,500,000 y ml (dros gyfnod o ddau fis gydag o leiaf dau sampl y mis)

Cyfrif platiau ar gyfer llaeth amrwd gyda'r bwriad o gynhyrchu cynhyrchion nad ydynt yn cael eu trin â gwres – er enghraifft caws – Rhaid i'r cyfartaledd geometrig treigl fod yn hafal neu'n is na 500,000 y ml (dros gyfnod o ddau fis, gydag o leiaf dau sampl y mis)

28. Rhaid profi llaeth yfed amrwd ar gyfer cyfrif celloedd somatig (lle bo angen) a chyfrif platiau gan naill ai'r
- gweithredwr busnes bwyd sy'n cynhyrchu'r llaeth
  - gweithredwr busnes bwyd sy'n prosesu'r llaeth (y prynwr cyntaf)
  - grŵp o weithredwyr busnesau bwyd (cydweithredol)
  - cynllun rheoli rhanbarthol cenedlaethol
29. Ar gyfer mwyafrif y gweithredwyr busnesau bwyd, gan gynnwys y rhai sy'n cynhyrchu llaeth i'w brosesu ymhellach yn ogystal ag i'w werthu'n uniongyrchol, mae'r profion hyn yn cael eu cynnal gan weithredwr y busnes bwyd sy'n casglu neu'n prosesu'r llaeth – y prynwr llaeth cyntaf. Yn yr achosion hyn, bydd y prynwr llaeth cyntaf yn adrodd am y canlyniadau hyn i weithredwr y busnes bwyd a'r ASB.

30. Os yw gweithredwyr busnesau bwyd yn darparu llaeth yfed amrwd i'r defnyddiwr terfynol yn unig ac nad ydynt yn gwerthu i brynwr cyntaf, bydd angen iddynt ystyried sut y byddant yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf ac yn cynnal profion o'r fath eu hunain.
31. Os daw gweithredwr busnes bwyd yn ymwybodol nad yw llaeth yn cydymffurfio â'r meini prawf uchod, rhaid iddynt roi gwybod i'r ASB os yw'n ymwneud â llaeth **buwch** amrwd ac i'r awdurdod lleol os yw'n ymwneud â llaeth yfed amrwd unrhyw rywogaethau eraill. Rhaid i weithredwr y busnes bwyd gymryd mesurau i gywiro'r sefyllfa.
32. Yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 627/2011, Erthygl 50, os nad yw gweithredwr y busnes bwyd wedi cymryd camau cywiro a sicrhau bod y cyfrif celloedd somatig a'r cyfrif platiau o fewn y paramedrau sy'n ofynnol yn gyfreithiol o fewn 3 mis ar ôl rhoi gwybod i'r Awdurdod Gorfodi, mae'n rhaid eu gwahardd rhag gosod llaeth amrwd, gan gynnwys llaeth yfed amrwd, ar y farchnad. Bydd y gwaharddiad hwn ar waith nes bydd y gweithredwr yn gallu dangos bod lefelau yn cydymffurfio.

## Arfer gorau

Mae cyfrif platiau a chyfrif celloedd somatig yn ddangosyddion clefydau a/neu hylendid. Er mwyn osgoi methiannau sampl ar gyfer y paramedrau hyn ac i unioni'r sefyllfa pan fydd hyn yn digwydd, dylid asesu a gwella iechyd y gwartheg a'r rheoliadau hylendid lle bo angen. Yn benodol, dylid cynnal iechyd a hylendid y pwrs. Mae rhagor o fanylion am y rheolaethau hyn i'w gweld yn y [canllawiau ymarferol i gynhyrchwyr llaeth](#).

Os eir y tu hwnt i'r lefelau sy'n ofynnol yn gyfreithiol ar gyfer cyfrif platiau a/neu goliformau, mae'r ASB yn argymhell y dylid peidio â gwerthu'r llaeth gan fod hyn yn dangos diffyg rheolaeth dros y broses a bod y System Rheoli Diogelwch Bwyd naill ai'n aneffeithiol neu ddim yn cael ei chymhwyso'n iawn.

Argymhellir bod gweithredwr y busnes bwyd yn ymchwilio ac yn cymryd camau cywiro priodol i unioni'r mater. Mae angen i weithredwr y busnes bwyd gynnal gwaith samplu pellach i wirio nad yw'r cyfrif platiau a/neu'r lefelau coliformau bellach yn fwy na'r gofynion cyfreithiol.

Argymhellir na ddylid rhoi llaeth yfed amrwd ar y farchnad nes bod ymchwiliad wedi'i gynnal a bod canlyniadau sampl yn cadarnhau bod y lefelau o fewn y paramedrau cyfreithiol.

## Pathogenau

33. Mae Erthygl 14 Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 yn nodi na ddylid rhoi bwyd ar y farchnad os yw'n anniogel.
34. Bydd angen i weithredwyr busnesau bwyd sy'n cyflenwi llaeth yfed amrwd yn uniongyrchol i'w yfed gan bobl ystyried sut y byddant yn dangos bod rheolaethau hylendid eu System Rheoli Diogelwch Bwyd yn effeithiol ac yn gweithio'n iawn a sut y gallant ddangos bod eu cynnyrch yn ddiogel. Mae'r broses ddilysu a gwirio yn rhan o'r broses System Rheoli Diogelwch Bwyd a ddisgrifir uchod ac mae'n hanfodol i sicrhau bod y system yn gweithio.

### Arfer gorau

Yn ogystal â *Listeria monocytogenes*, a drafodir ymhellach isod, mae'r bacteria/pathogenau niweidiol canlynol wedi bod yn gysylltiedig â samplau llaeth amrwd a phennwyd canllawiau ar y paramedrau diogel ar gyfer y pathogenau hyn.

- Rhaid i *Salmonella* spp. fod yn absennol mewn 25ml
- Rhaid i *Campylobacter* spp. fod yn absennol mewn 25ml
- Rhaid i *E. coli* sy'n cynhyrchu gwenwyn Shiga (STEC) fod yn absennol mewn 25ml<sup>1</sup>
- Rhaid i *Staphylococci positif coagulase* fod islaw  $10^4$  CFU/ml (fodd bynnag, gall lefelau rhwng 20 a  $10^4$  CFU/ml nodi hylendid proses a rheolyddion tymheredd gwael gan arwain at ymchwiliad i'r achos tebygol)

Mae'r ASB o'r farn bod samplu a phrofi microbiolegol yn bwysig wrth ddilysu a gwirio bod y rheolaethau a gymhwysir yn effeithiol.

Fel rhan o'r broses i ddilysu eu Systemau Rheoli Diogelwch Bwyd, argymhellir bod gweithredwyr busnesau bwyd yn darparu un set lawn o

<sup>1</sup> Mae profi ar gyfer *E. coli* O157 yn hytrach na STEC yn darparu llai o ddiogelwch i iechyd y cyhoedd. Rydym ni'n cydnabod y baich ar fusnesau ac yn gweithio gyda'r diwydiant a labordai i sefydlu dull pragmatig sy'n cydbwysu'r angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r baich samplu a phrofi



ganlyniadau profion boddhaol i'r ASB. Gallai hyn gynnwys cyfrif platiau, coliformau a'r pathogenau hynny a restrir uchod.

Argymhellir hefyd y dylai gweithredwyr busnesau bwyd greu a defnyddio cyfundrefn samplu a phrofi sy'n rhoi sicrwydd parhaus bod y System Rheoli Diogelwch Bwyd yn effeithiol. Byddai amllder y profion yn dibynnu ar natur y busnes, y risgiau sy'n gysylltiedig â'r systemau cynhyrchu a'r rheolaethau sydd eisoes ar waith. Wrth greu cyfundrefn samplu, byddai angen i weithredwr y busnes bwyd bennu'r amllder fel rhan o'i System Rheoli Diogelwch Bwyd.

Er mwyn sicrhau bod unrhyw waith samplu yn gynrychioliadol o'r cynnyrch terfynol sy'n cael ei yfed, argymhellir cymryd samplau o'r cynhwysydd terfynol neu'r peiriant gwerthu.

Byddai defnyddio labordy sydd wedi'i achredu'n briodol, er enghraifft gydag UKAS (Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig), yn sicrhau bod dulliau profi priodol yn cael eu defnyddio, a bod y canlyniadau'n ddilys ac yn ddibynadwy.

Argymhellir bod gweithredwyr busnesau bwyd yn rhoi gwybod am unrhyw ganlyniadau sampl rheolaidd sy'n methu â chyrraedd y safonau gofynnol i'r Awdurdod Gorfodi perthnasol cyn gynted ag y byddant ar gael. Yr Awdurdod Gorfodi fyddai'r ASB ar gyfer llaeth **buwch** i'w yfed yn amrwd a'r awdurdod lleol ar gyfer llaeth yfed amrwd pob rhywogaeth arall.

35. Os oes gan weithredwyr busnesau bwyd reswm i greu bod y cynnyrch yn anniogel, mae'n rhaid iddynt o dan Reoliad (CE) Rhif 178/2002, Erthygl 19, dynnu'r cynnyrch yn ôl neu, lle bo angen, galw sypiau (*batches*) yn ôl o'r farchnad. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar dynnu a galw cynhyrchion yn ôl ar ddiwedd y ddogfen hon.

## **Listeria monocytogenes**

36. Mae Rheoliad (CE) Rhif 2073/2005 yn sefydlu meini prawf diogelwch bwyd ar gyfer amryw bathogenau ac yn darparu terfynau ar gyfer *Listeria monocytogenes* mewn bwyd parod i'w fwyta fel llaeth yfed amrwd. Mae Atodiad I, Pennod 1, pwynt 1.2 ac 1.3 yn berthnasol.
37. Lle mae gan laeth yfed amrwd oes silff o **4 diwrnod neu lai** gellir tybio, ar yr amod bod y llaeth yn cael ei gadw yn yr oergell, na fydd *Listeria monocytogenes* yn tyfu. Fodd bynnag, gall *Listeria monocytogenes* fod yn

bresennol yn y cynnyrch hyd yn oed os gellir tybio na fydd yn tyfu yn ystod yr oes silff hon. Felly, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd ddangos nad yw *Listeria monocytogenes* yn fwy na'r terfyn o 100 CFU/ml trwy gydol yr oes silff arfaethedig.

38. Pan fydd gweithredwr y busnes bwyd yn dymuno pennu oes silff sy'n **hirach na 4 diwrnod** mae angen iddynt ddangos bod *Listeria monocytogenes* **naill ai**
- yn absennol mewn 25ml cyn iddo adael rheolaeth gweithredwr y busnes bwyd **neu**
  - profi na fydd yn fwy na 100 CFU/ml trwy gydol oes silff arfaethedig y cynnyrch. Rhaid gwneud hyn yn unol ag astudiaethau oes silff fel y manylir yn Atodiad II Rheoliad (CE) Rhif 2073/2005. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am bennu oes silff ym mharagraff 43.
39. Rhaid dangos cydymffurfiaeth â'r maen prawf ar gyfer *Listeria monocytogenes* fel rhan o drefn samplu a phrofi rheolaidd a gynhelir i wirio bod y System Rheoli Diogelwch Bwyd yn effeithiol.
40. Os yw profion yn canfod presenoldeb *Listeria monocytogenes* yn y llaeth ar lefelau uwchlaw'r meini prawf penodol, rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Gorfodi a rhaid rhoi'r gorau i werthu unrhyw laeth yfed amrwd ar unwaith. Yn yr un modd â chanlyniadau sampl pathogen anfoddhaol eraill, mae'n ofynnol i weithredwr y busnes bwyd dynnu neu alw unrhyw gynnyrch yr effeithir arno yn ôl o'r farchnad. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am dynnu a galw cynhyrchion yn ôl tuag at ddiwedd y ddogfen hon.
41. Dim ond ar ôl cymryd camau unioni, a bod y System Rheoli Diogelwch Bwyd wedi'i hail-ddilysu i sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol y gellir rhoi llaeth yfed amrwd yn ôl ar y farchnad.

## **Camau unioni yn dilyn canlyniadau anfoddhaol**

### **Arfer gorau**

Er mwyn gallu cymryd camau unioni digonol, mae'n bwysig nodi gwraidd y broblem. Er mwyn gwneud hyn, argymhellir cynnal gwaith samplu wedi'i dargedu trwy gydol y broses gasglu a photelu er mwyn helpu i nodi ffynhonnell yr halogiad a lle mae'r broblem, er enghraifft o'r tanc mawr a chynhwysydd y cynnyrch terfynol. Bydd nodi a mynd i'r afael â'r hyn sydd

wedi achosi'r methiant yn helpu i sicrhau nad yw'r un broblem yn digwydd eto.

Efallai y bydd yr Awdurdod Gorfodi yn gallu cynnig cyngor ar gynllun samplu priodol ar gyfer eich busnes, fel arall dylid ceisio cymorth arbenigwr yn y maes hwn.

Ar ôl cymryd camau unioni, i ail-ddilysu'r System Rheoli Diogelwch Bwyd, argymhellir y dylid cael o leiaf dau ganlyniad boddhaol yn olynol o wahanol sypiau llaeth. Argymhellir hefyd bod yr ASB yn cymryd y sampl ddilysu olaf.

Argymhellir yn gryf y dylai gweithredwr y busnes bwyd weithio'n agos â'i arolygwr hylendid llaeth lleol i wirio cydymffurfiaeth cyn i unrhyw laeth yfed amrwd pellach gael ei roi ar y farchnad.

## **Profion dilysu yr ASB**

42. O dan Atodlen 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Reoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013, mae gan yr ASB rwymedigaeth gyfreithiol i gynnal gwaith samplu dilysu ar gyfer llaeth buwch i'w yfed yn amrwd. Felly, yn ychwanegol at raglen brofi gweithredwr y busnes bwyd ei hun, bydd arolygwr hylendid llaeth yr ASB yn adolygu'r canlyniadau samplu a'r profion ac yn profi llaeth buwch i'w yfed yn amrwd i wirio cydymffurfiaeth â safonau microbiolegol yn ystod arolygiadau. Bydd y sampl ddilysu hon yn cael ei phrofi am gyfrif platiau, coliformau a phathogenau.
43. Bydd yr ASB yn codi ffi o £63 ar weithredwr y busnes bwyd am bob sampl dilysu a gesglir. Bydd y gwaith samplu hwn yn digwydd ddwywaith y flwyddyn yn rheolaidd, ond gall yr ASB gynyddu a lleihau amllder y profion pe bai tystiolaeth ddigonol i wneud hynny. Byddant yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn.
44. Swyddogion yr awdurdod lleol fydd yn samplu unrhyw rywogaethau ar wahân i wartheg.

## **Lleiafswm gwydnwch ac oes silff**

45. Mae Rheoliad (UE) 1169/2011, Erthygl 24 yn ei gwneud yn ofynnol i fwyd sydd, o safbwynt microbiolegol, yn ddarfodus iawn, gynnwys dyddiad

'defnyddio erbyn'. Ar ôl y dyddiad 'defnyddio erbyn', bernir bod bwyd yn anniogel yn unol ag Erthygl 14(2) i (5) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

46. Mae gweithredwyr busnesau bwyd yn gyfrifol am sefydlu'r dyddiad priodol o gyfnod lleiaf y bydd bwyd yn para. Yn achos cynnyrch darfodus parod i'w fwyta fel llaeth yfed amrwd, y dyddiad 'defnyddio erbyn' fyddai hwn.
47. Mae Rheoliad 3 Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 yn darparu eithriad ar gyfer poteli gwydr y gellir eu haildefnyddio sy'n golygu nad oes angen i'r botel fod â dyddiad defnyddio erbyn arni.

### **Arfer gorau**

Argymhellir bod gweithredwyr busnesau bwyd yn ystyried defnydd terfynol y cynnyrch gan y defnyddiwr er mwyn gallu storio a defnyddio llaeth yfed amrwd yn ddiogel. Felly, mae dal angen sefydlu oes silff llaeth yfed amrwd ac mae'r ASB yn argymhell y byddai angen i'r cynhyrchedd barhau i ddarparu gwybodaeth am wydnwch i'r defnyddiwr trwy ddulliau priodol. Gallai hyn fod trwy labelu'r botel unigol, defnyddio arwyddion yn y man gwerthu neu ar lafar i'r defnyddiwr.

Yn ychwanegol at y dyddiad defnyddio erbyn a gofynion labelu statudol ar gyfer llaeth yfed amrwd (gweler pwynt 73 yn y ddogfen hon), argymhellir bod gweithredwyr busnesau bwyd yn darparu'r wybodaeth ganlynol gyda'r cynnyrch;

- Amodau storio – dylid cadw llaeth yfed amrwd yn yr oergell o dan 5°C.
- Amodau storio ac oes silff os yw'r llaeth yfed amrwd wedi'i rewi gartref gan y defnyddiwr ar ddiwrnod prynu'r cynnyrch.
- Cyfarwyddiadau ar ddadmer y cynnyrch yn yr oergell yn ddiogel
- Oes silff y llaeth yfed amrwd ar ôl iddo gael ei ddadmer. Bydd hyn yn dibynnu ar nifer y diwrnodau sy'n weddill ar yr oes silff wreiddiol pan gafodd y cynnyrch ei rewi. Rhaid i gyfanswm yr oes silff a roddir ar gyfer llaeth wedi'i oeri/wedi'i ddadmer beidio â bod yn fwy na'r dyddiad defnyddio erbyn gwreiddiol.

48. Rhaid i'r cynnyrch barhau i fod yn ddiogel a chadw ei briodweddau penodol wrth ei storio'n iawn.

49. Dylai'r ffordd y pennir y dyddiad defnyddio erbyn gael ei fanylu'n glir yn System Rheoli Diogelwch Bwyd gweithredwr y busnes bwyd. Cyfrifoldeb y gweithredwr yw sicrhau bod llaeth yfed amrwd yn cydymffurfio â'r meini prawf priodol. I wneud hyn rhaid i'r gweithredwr ddilysu bod y gweithdrefnau yn ei System Rheoli Diogelwch Bwyd yn effeithiol a gwirio eu bod yn parhau i fod yn effeithiol yn rheolaidd.
50. Mae Rheoliad (CE) Rhif 2073/2005 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau y gellir bodloni meini prawf diogelwch bwyd sy'n berthnasol trwy gydol oes silff cynhyrchion, yn yr achos hwn *Listeria monocytogenes*, o dan amodau dosbarthu, storio a defnyddio y gellir eu rhagweld yn rhesymol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd gynnal astudiaethau (a nodir yn Atodiad II y Rheoliad) i ymchwilio i gydymffurfiaeth cynnyrch trwy gydol ei oes silff, yn enwedig yn achos bwydydd parod i'w bwyta sy'n gallu cefnogi twf *Listeria monocytogenes*.

### **Arfer gorau**

Cynhyrchwyd [dogfennau canllaw diwydiant yr Undeb Ewropeaidd](#) a [chanllaw diwydiant y Deyrnas Unedig](#) er mwyn helpu gweithredwyr busnesau bwyd i ddeall yr ystod o wahanol ddulliau sydd ar gael i sefydlu oes silff cynnyrch diogel mewn perthynas â *Listeria monocytogenes* ac i ddangos y bydd cynhyrchion yn cydymffurfio â meini prawf *Listeria monocytogenes* tan ddiwedd yr oes silff a neilltuwyd.

Un ffordd i bennu dyddiad defnyddio erbyn cywir a dibynadwy yw cynnal astudiaethau oes silff priodol, a all gynnwys ystyried nodweddion y cynnyrch, defnydd o ddata hanesyddol gan gynnwys samplu a phrofi cynnyrch terfynol, modelu mathemategol rhagfynegol ac astudiaethau labordy fel profi her. Bydd yr astudiaethau hyn yn caniatáu i weithredwr y busnes bwyd ddangos bod y cynnyrch yn parhau i fod yn ddiogel yn ystod ei oes silff benodol.

Argymhellir bod gweithredwyr busnesau bwyd yn ceisio cyngor arbenigol wrth benderfynu sut i bennu oes silff eu cynnyrch. Mae cyngor ar astudiaethau oes silff ar gael gan labordai profi microbiolegol ag enw da. Cyfrifoldeb gweithredwr y busnes bwyd yw sicrhau bod dyddiad defnyddio erbyn y cynnyrch yn ddilys ac y bydd y cynnyrch yn parhau i fod yn ddiogel tan y dyddiad hwn.

## Gwrthfotigau

51. Rhaid bod gan weithredwyr busnesau bwyd weithdrefnau ar waith i sicrhau nad yw eu llaeth yfed amrwd yn cael ei roi ar y farchnad os yw'n cynnwys gweddillion gwrthfotig uwchlaw'r terfyn cyfreithiol. Mae [Rheoliad \(CE\) Rhif 37/2010](#) yn nodi'r Uchafswm Terfynau Gweddillion ar gyfer meddyginiaethau milfeddygol unigol mewn bwyd sy'n dod o anifeiliaid.

Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gadw cofnod o'r holl feddyginiaethau a roddir i anifeiliaid. Dylai fod system ar waith i sicrhau bod y gweithredwr yn gallu nodi pa anifail/anifeiliaid sydd wedi cael eu trin fel y gallant sicrhau bod eu llaeth yn cael ei waredu'n briodol ac nad yw'n cael ei ychwanegu at y tanc mawr.

### Arfer gorau

Mae'n arfer gorau i weithredwr y busnes bwyd gofnodi unrhyw weithdrefnau y maent yn eu rhoi ar waith i nodi anifeiliaid sy'n cael triniaeth yn eu cofnodion meddygol neu yn eu System Rheoli Diogelwch Bwyd. Dylai hyn gynnwys sut y byddant yn nodi pa anifeiliaid sy'n cael triniaeth a sut y byddant yn sicrhau nad yw'r llaeth yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd.

52. Bydd y prynwr llaeth cyntaf yn cynnal y profion hyn ac yn adrodd ar unrhyw ganlyniadau sy'n nodi gweddillion cemegol i' weithredwr y busnes bwyd a'r ASB. Ar ôl cael gwybod, bydd yr arolygwr hylendid llaeth yn ymweld â'ch safle ac yn asesu gweithdrefnau.
53. Os yw gweithredwyr busnesau bwyd yn gwerthu llaeth yfed amrwd yn unig ac nad ydynt yn gwerthu i brynwr cyntaf, bydd angen iddynt gynnal profion o'r fath eu hunain a dangos eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf.
54. Bydd gan wahanol gyffuriau gyfnodau tynnu'n ôl gwahanol, felly bydd angen cadw llaeth yfed amrwd o anifeiliaid wedi'u trin allan o'r gadwyn fwyd am wahanol gyfnodau o amser. Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyfnodau tynnu'n ôl penodol.

## Arfer gorau

Dylai gweithredwr y busnes bwyd ofyn am gyngor gan eu milfeddyg a/neu'r arolygwr hylendid llaeth ar gyfer eu sefyllfa benodol. Gellir dod o hyd i rhagor o gyngor a gwybodaeth yn y [canllawiau ar hylendid llaeth a gweddillion gwrthfotig](#).

## Statws twbercwlosis

55. Yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran IX, rhaid i laeth amrwd a cholostrwm ddod o anifeiliaid sydd â statws 'rhydd rhag' Twbercwlosis (TB) a Brwcelosis (BR) swyddogol oni bai bod y llaeth yn cael ei drin â gwres i ddangos adwaith negyddol i'r prawf ffosffatase alcalïaidd. Rhaid iddo beidio byth â dod o anifeiliaid sydd wedi'u heintio gan y clefydau hyn. Felly, rhaid i laeth yfed amrwd i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl ddod o wartheg sydd yn swyddogol yn rhydd rhag TB a BR.
56. Os yw gweithredwr y busnes bwyd yn amau bod anifail wedi'i effeithio arno gan unrhyw glefyd hysbysadwy, gan gynnwys TB neu BR, mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt roi gwybod am hyn i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Rhaid ynysu'r anifail nes bod presenoldeb afiechyd yn cael ei gadarnhau. Mae rhagor o fanylion ynglŷn â [chlefydau hysbysadwy a sut i roi gwybod amdanynt](#) i'w gweld ar-lein.
57. Mae APHA yn cynnal profion TB o leiaf unwaith bob blwyddyn ar ffermydd gwartheg a byfflo sy'n cynhyrchu llaeth yfed amrwd. Nid yw rhywogaethau eraill sy'n cynhyrchu llaeth yn cael eu profi'n rheolaidd gan APHA, ac eithrio geifreoedd (*goat herds*) sydd wedi'u cydleoli neu sy'n rhannu ffin â fferm wartheg y mae briwiau neu ddigwyddiad meithriniad TB positif wedi effeithio arni ('buches wedi'i heintio') a/neu os yw haint *Mycobacterium bovis* wedi'i gadarnhau mewn geifr neu ddiadell o ddefaid. Fodd bynnag, nid yw APHA yn rhoi statws rhydd rhag TB swyddogol i fuchesi o unrhyw rywogaeth heblaw am anifeiliaid buchol (hynny yw, gwartheg, byfflo a ffermir a buail a ffermir).
58. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth benodol am [Brwcelosis a sut i ddod o hyd iddo](#) yma.
59. Os bydd eich buches yn colli ei statws rhydd rhag TB swyddogol am unrhyw reswm (gan gynnwys buches wedi'i heintio â TB, hysbysiad o TB mewn carcasau anifeiliaid yn ystod lladd masnachol, neu brawf TB hwyr

ac ati), bydd APHA yn rhoi gwybod i'r ASB, yr awdurdod lleol perthnasol a gweithredwr y busnes bwyd. Dylai'r hysbysiad hwn nodi bod yn rhaid trin yr holl laeth amrwd â gwres ac na ddylid ei yfed yn amrwd nes bod y fuches wedi ail-ennill ei statws rhydd rhag TB. Bydd yr arolygwr hylendid llaeth yn cysylltu â chi neu'n ymweld â'ch safle i sicrhau nad ydych chi'n gwerthu llaeth yfed amrwd bellach. Cymerir camau gorfodi os canfyddir bod y gweithredwr yn parhau i werthu llaeth yfed amrwd ac felly'n torri hysbysiad APHA a'r ddeddfwriaeth hylendid bwyd berthnasol.

60. Bydd APHA yn cyflwyno rhybudd i weithredwr y busnes bwyd a fydd yn manylu'n union pa gyfyngiadau a roddir ar y fuches o wartheg. Er mwyn penderfynu ar hyn, bydd APHA yn cynnal asesiad i sefydlu a oes angen i anifeiliaid unigol neu'r fuches gyfan fod dan gyfyngiad TB. Er enghraifft, os yw un anifail neu fwy o'r fuches wedi ymateb yn bositif i brawf TB statudol, bydd cyfyngiadau TB yn berthnasol i'r fuches gyfan ac ni chaiff llaeth o'r anifeiliaid unigol sydd wedi ymateb fynd i mewn i'r gadwyn fwyd – gweler paragraff 61. Hyd nes bod cyfyngiadau'r fuches TB wedi'u codi ac hyd nes i'r statws swyddogol rhydd rhag TB gael ei adfer, gall llaeth o anifeiliaid eraill yn y fuches – y rhai nad ystyrir eu bod wedi ymateb i'r prawf TB – fynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar yr amod fod y llaeth yn cael ei drin â gwres – gweler paragraff 55. O'i gymharu, os yw un anifail neu fwy o fuches sydd â statws rhydd rhag TB swyddogol yn cael ymateb amhendant i'r prawf croen twbercwlin, heb unrhyw ganlyniadau prawf positif eraill ar yr un pryd, dim ond dan gyfyngiadau symud y bydd APHA yn gosod yr anifail/anifeiliaid unigol hyd nes y byddant yn cael eu hail-brofi. Yn yr achos hwn, fel rheol caniateir i'r fuches yr effeithir arni gadw ei statws rhydd rhag TB swyddogol. Gall bobl barhau i yfed llaeth o anifeiliaid sydd wedi ymateb yn amhendant, ar yr amod ei fod yn cael ei drin â gwres cyn cael ei werthu.
61. Rhaid peidio â defnyddio llaeth i'w yfed gan bobl o anifeiliaid sydd wedi ymateb yn bositif i brawf TB swyddogol, hyd yn oed pan fydd wedi'i drin â gwres a rhaid atal llaeth o'r anifeiliaid hyn rhad mynd i'r tanc mawr. Dylid cysylltu â'r [Awdurdod Gorfodi](#) i gael rhagor o wybodaeth am waredu llaeth o anifeiliaid sydd â TB.

### **Arfer gorau**

Argymhellir na ddylech roi llaeth o anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB i loi neu dda byw eraill ar eich daliad eich hun. Os yw'n cael ei



ddefnyddio, dim ond ar ôl triniaeth wres addas y gellir rhoi llaeth o anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB i anifeiliaid ar yr un fferm.

62. Rhaid cadw anifeiliaid sydd wedi ymateb yn bositif i'r prawf TB neu BR swyddogol ar wahân. Er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu, dylai cyfleusterau ynysu gael system ddraenio ac awyrle ar wahân. Er mwyn atal llaeth o anifeiliaid nad ydynt wedi adweithio i'r prawf TB/BR rhag cael eu halogi, rhaid godro'r anifeiliaid sydd wedi adweithio sydd ar fin cael eu symud o'r fferm yn olaf, a glanhau'r offer godro wedyn gan ddilyn trefn olchi lanweithiol lawn. Rhaid cael gwared ar y llaeth yn mewn ffordd briodol.
63. Rhaid i laeth o anifeiliaid mewn buches nad ydynt wedi adweithio'n bositif i'r prawf TB gael ei drin â gwres cyn ei werthu i'w yfed gan bobl. Rhaid i weithredwr y busnes bwyd neu'r person sy'n gyfrifol yn y daliad cynhyrchu cynradd sicrhau eu bod nhw neu brynwr eu llaeth yn trin yr holl laeth yn addas gan ddefnyddio gwres.
64. Gall llaeth o anifeiliaid sydd heb brofi'n negyddol nac yn gadarnhaol i'r prawf croen twbercwlin sy'n aros am ail brawf dal gael ei yfed gan bobl, ar yr amod ei fod yn cael ei drin â gwres - i ddangos adwaith negyddol i brawf ffosffatas alcalïaidd - cyn iddo gael ei werthu, fel y manylir uchod.
65. Ni ellir defnyddio llaeth amrwd o anifeiliaid nad ydynt wedi adweithio i'r prawf mewn buchesau sydd wedi colli eu statws rhydd rhag TB swyddogol fel cynhwysyn mewn cynhyrchion llaeth amrwd, fel hufen neu gaws, oni bai ei fod yn cael ei drin â gwres i ddangos adwaith negyddol i brawf ffosffatas alcalïaidd. Rhaid peidio â chyflenwi llaeth amrwd o anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB i fusnesau eraill a fydd yn cynhyrchu cynhyrchion llaeth amrwd.
66. Pan fydd canlyniadau profion dilynol yn negyddol a bod y fuches wedi ail-ennill ei statws heb TB swyddogol, bydd APHA yn darparu cadarnhad o hyn i weithredwr y busnes bwyd, yr awdurdod lleol perthnasol a'r ASB.
67. Unwaith y bydd yr ASB wedi'i hysbysu o'r statws heb TB swyddogol gan APHA, bydd y arolygwr hylendid llaeth yn ymweld â'r safle. Er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol, bydd angen i weithredwr y busnes bwyd ddangos bod ei System Rheoli Diogelwch Bwyd yn parhau i fod yn effeithiol a darparu canlyniadau profion i ddangos ei fod yn gwirio hyn.

68. Gellir cael cyngor a gwybodaeth am ddim ynghylch sut y gall ffermwyr liniaru'r risg y bydd TB yn effeithio ar eu buchesau gan y [Gwasanaeth Cyngori ar TB \(TBAS\) ar gyfer buchesau yn yr ardaloedd risg uchel yn Lloegr](#). Mae rhagor o gyngor a gwybodaeth ar gael ar ['Hwb TB'](#).

## **Gofynion cyflenwad dŵr**

69. Rhaid i'r holl ddŵr a ddefnyddir yn y parlwr godro, yr ystafell storio llaeth a'r ardaloedd llenwi llaeth fod yn yfadwy/iach neu'n lân.
70. Yn Erthygl 2, Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, diffinnir dŵr yfadwy – a elwir hefyd yn ddŵr iach – fel dŵr sy'n bodloni gofynion sylfaenol Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC. Caiff hyn ei orfodi yng Nghymru ac yn Lloegr drwy [Reoliadau Cyflenwad Dŵr \(Ansawdd Dŵr\) 2018](#) a [Rheoliadau Cyflenwad Dŵr \(Ansawdd Dŵr\) 2016](#).
71. Diffinnir dŵr glân yn Erthygl 2, Rheoliad (CE) 852/2004, fel dŵr môr glân neu ddŵr croyw o ansawdd tebyg. Diffinnir dŵr môr glân fel dŵr naturiol, wedi'i buro neu ddŵr lled hallt nad yw'n cynnwys micro-organebau, sylweddau niweidiol na phlancton morol gwenwynig mewn meintiau sy'n gallu effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ansawdd iechyd bwyd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am bryd mae'n addas defnyddio dŵr glân yng [Nghanllawiau'r ASB ar gyfer Awdurdodau Gorfodi ar Ddefnyddio Cyflenwadau Dŵr Preifat ar Safleoedd Cynhyrchu Cynradd](#).
72. Er mwyn i ddŵr gael ei ddsbarthu fel dŵr yfadwy neu iach a bod yn addas i'w ddefnyddio ar safleoedd cynhyrchu bwyd, rhaid i *E. coli* neu Enterococci fod yn absennol o fewn sampl 100ml a gymerir o dap dŵr gweithredwr y busnes bwyd a ddefnyddir at ddibenion busnes.

### **Arfer gorau**

Os defnyddir prif gyflenwad dŵr, gellir tybio bod y cyflenwad dŵr yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Fodd bynnag, argymhellir bod y cyflenwad dŵr yn cael ei brofi wrth ei ddanfôn yn flynyddol i sicrhau bod y pibellau a'r offer a ddefnyddir i gyflenwi a chludo dŵr ar eich safle mewn cyflwr da ac nad ydynt yn ffynhonnell halogiad.

Os defnyddir cyflenwad dŵr preifat, bydd angen i weithredwr y busnesu bwyd ystyried sut y mae'n dangos bod y gofynion uchod yn cael eu bodloni. Er mai mater i weithredwr y busnesu bwyd yw penderfynu sut y bydd yn dangos ei fod yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn, argymhellir bod cyflenwadau dŵr preifat yn cael eu profi'n rheolaidd ar gyfer cyfrif cytreffi a

phathogenau. Dylai amlder profion o'r fath fod yn seiliedig ar risg a'i bennu yn y System Rheoli Diogelwch Bwyd.

Gellir gweld canllawiau pellach ar ddefnyddio cyflenwadau dŵr preifat yng [Nghanllawiau'r ASB ar gyfer Awdurdodau Gorfodi ar Ddefnyddio Cyflenwadau Dŵr Preifat ar Safleoedd Cynhyrchu Cynradd.](#)

## **Labelu Ilaeth yfed amrwd**

73. Hyd yn oed pan fydd arferion a gweithdrefnau rheoli hylendid da ar waith ynghyd â System Rheoli Diogelwch Bwyd foddhaol, gall Ilaeth yfed amrwd dal fod yn niweidiol i iechyd. Am y rheswm hwn mae'n rhaid i laeth yfed amrwd i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl fel cynnyrch parod i'w yfed fod â rhybudd iechyd, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Atodlenni 6 a Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd (Lloegr) 2013.
74. Mae hyn yn berthnasol i laeth yfed amrwd a gynhyrchir o bob rhywogaeth, ac eithrio byfflo, ac mae fel a ganlyn:

### **Cymru:**

Yng Nghymru, yn ychwanegol at y geiriad sy'n ofynnol yn Lloegr fel isod, rhaid i'r rhybudd iechyd hefyd gynnwys, naill ai ar y cynhwysydd neu ar yr hysbysiad yn y man gwerthu, y datganiad isod.

“Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynghori'n gryf na ddylai plant, menywod beichiog, pobl hŷn, pobl sy'n sâl neu sydd â salwch cronig ei yfed.”

### **Lloegr:**

Cynhwysydd: “Nid yw'r Ilaeth hwn wedi'i drin â gwres ac felly gall gynnwys organebau sy'n niweidiol i iechyd.” a/neu

Heb ei becynnu ymlaen llaw: “Nid yw Ilaeth a gyflenwir yn y sefydliad hwn wedi cael ei drin â gwres ac felly gall gynnwys organebau sy'n niweidiol i iechyd.”

## Arfer gorau

Er mai dim ond gofyniad cyfreithiol yng Nghymru yw'r datganiad ychwanegol hwn, argymhellir bod pob gweithredwr busnes bwyd yn labelu eu cynnyrch gyda'r rhybudd ychwanegol hwn.

75. Ar gyfer llaeth yfed amrwd sy'n cael ei werthu mewn cynhwysydd wedi'i becynnu ymlaen llaw, rhaid i'r rhybudd iechyd ymddangos ar label sydd ynghlwm wrth y cynhwysydd a ddefnyddir i werthu'r llaeth hwnnw ar y farchnad.
76. Yn achos unrhyw gynnyrch llaeth yfed amrwd nad yw'n cael ei becynnu ymlaen llaw ac sy'n cael ei roi ar y farchnad drwy weithdrefn arlwygo fferm, fel siop fferm neu westy gwely a brechwast, rhaid i'r rhybudd iechyd ymddangos ar docyn neu rybudd sy'n hawdd ei ganfod gan brynwr posib yn y man lle mae'r defnyddiwr yn dewis y llaeth hwnnw.
77. Pan gaiff peiriannau gwerthu eu defnyddio i werthu llaeth o fewn cwrtil y daliad cynhyrchu, rhaid i'r rhybudd iechyd gael ei arddangos yn glir i'r prynwr ar y pwynt prynu.
78. Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran 9, Pennod IV hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i laeth amrwd wedi'i fwriadu i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl, sy'n golygu llaeth yfed amrwd, gael ei labelu gyda'r geiriau 'llaeth amrwd'. Mae hyn yn berthnasol i bob cynnyrch llaeth yfed amrwd a roddir ar y farchnad ac eithrio cynnyrch llaeth yfed amrwd a ddarperir mewn poteli gwydr y gellir eu haildefnyddio, er enghraifft gan ddyd llaeth.
79. Pan fydd llaeth yfed amrwd yn cael ei becynnu ymlaen llaw ar y fferm cyn cael ei werthu o'r fferm i'r defnyddiwr terfynol – hynny yw naill ai'n cael ei werthu'n uniongyrchol neu ei werthu ar y we – neu os yw llaeth yfed amrwd wedi'i becynnu ar gyfer archeb, nid yw'r gofynion labelu gorfodol yn Erthygl 9 Rheoliad (UE) 1169/2011 yn berthnasol.
80. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi gofynion labelu bwyd a dylid cyfeirio unrhyw gyngor sy'n ymwneud â materion safonau bwyd eraill, fel gofynion labelu a phwysau a mesurau, at eich awdurdod lleol. Gellir dod o hyd i [ganllawiau cyffredinol ar labelu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw yma](#).
81. Er nad yw'r defnydd o laeth yfed amrwd yn eang, mae rhai defnyddwyr o'r farn bod ganddo fanteision iechyd penodol yn ychwanegol at ei elfennau

naturiol safonol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fanteision iechyd wedi'u profi'n wyddonol yn gysylltiedig ag yfed llaeth amrwd yng Nghymru ac yn Lloegr, felly gallai hawlio neu hysbysebu manteision o'r fath fod yn gamarweiniol a gallai arwain at gymryd camau gorfodi yn unol â [Rheoliad \(CE\) Rhif 1924/2006 ar honiadau maeth ac iechyd a wneir ar fwyd](#).

## **Gweithdrefnau tynnu/galw cynnyrch yn ôl**

82. Mae Erthygl 19 Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y busnes bwyd dynnu, a phan fod angen, alw bwyd yn ôl o'r farchnad, os yw'n ystyried neu os oes ganddo reswm i gredu nad yw'r bwyd yn cydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd. Mae'n ofynnol i weithredwr y busnes bwyd hefyd hysbysu'r Awdurdod Gorfodi.
83. Mae hyn yn golygu, o ganlyniad i ddigwyddiad bwyd, er enghraifft pan ddarganfyddir bod cynnyrch bwyd wedi'i halogi neu'n gysylltiedig ag achos o salwch, efallai y bydd yn rhaid ei dynnu'n ôl neu ei alw'n ôl o'r farchnad.
- mae'r broses tynnu'n ôl yn digwydd pan fydd bwyd anniogel yn cael ei dynnu o'r gadwyn gyflenwi cyn iddo gyrraedd defnyddwyr.
  - mae'r broses galw bwyd yn ôl yn digwydd pan gaiff bwyd anniogel ei dynnu o'r gadwyn gyflenwi ac fe gynghorir defnyddwyr i gymryd camau priodol, er enghraifft, dychwelyd neu gael gwared ar fwyd anniogel.
84. Mae'n ofynnol bod gan weithredwyr busnesau bwyd weithdrefn wedi'i dogfennu sy'n manylu ar eu proses ar gyfer tynnu a/neu alw cynnyrch yr ystyrir ei fod yn anniogel i'w fwyta gan bobl yn ôl.
85. Byddai'r weithdrefn wedi'i dogfennu hon yn dibynnu ar sut mae'r cynnyrch hwn yn cael ei werthu a'i farchnata, fel gwerthiannau trwy'r rhynggrwyd, trwy ddosbarthwr, hysbysebu cyfryngau cymdeithasu neu wefan. Dylid mynd i'r afael â hyn fesul achos, yn gymesur â maint a natur y gwerthiant. Dylid trafod eich gweithdrefnau galw cynnyrch yn ôl gyda'r Awdurdod Gorfodi.

### **Arfer gorau**

Gall enghraifft o gynllun tynnu/galw cynnyrch yn ôl gynnwys gweithdrefnau a dogfennaeth fel:

- rhestr o aelodau'r tîm sy'n ymwneud â gweithredu'r cynllun
- diffiniad o rolau a chyfrifoldebau aelodau tîm

- manylion cyswllt
- gweithdrefnau asesu risg a hysbysu
- templedi cyfathrebu
- log digwyddiadau bwyd
- gweithdrefnau adolygu a phrofi

Ffordd o sicrhau bod systemau a gweithdrefnau addas ar waith i ddelio â digwyddiad diogelwch bwyd yw adolygu a phrofi'n gyfnodol gynllun a gweithdrefnau'r busnes. Dylai gweithredwyr busnesau bwyd adolygu cynllun tynnu/galw cynnyrch yn ôl a'i weithdrefnau yn flynyddol. Gallai hyn gynnwys cynnal ymarfer digwyddiad ffug, yn cynnwys cwsmeriaid busnes (gan gynnwys manwerthwyr ar gyfer rhywogaethau heblaw buchod a dosbarthwyr), gan ei bod yn haws herio ac archwilio'r cynllun yn dilyn ffug ymarfer nag yn ystod sefyllfa bywyd go iawn.

Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar y mater hwn yn y [Canllawiau ar y Gallu i Olrhain, Tynnu a Galw Cynnyrch yn Ôl o fewn Diwydiant Bwyd y DU](#).

## Adolygiad

86. Nod yr ASB yw cadw'r holl ganllawiau'n gyfredol a chynnal adolygiadau rheolaidd ohonynt i sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol. Y dyddiad adolygu nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer y canllawiau hyn yw mis Chwefror 2021.
87. Mae'r ASB yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr ar ganllawiau, gan gynnwys adroddiadau o unrhyw ddolenni sydd wedi torri i ddeunydd cyfeirio neu gynnwys arall y gallai fod angen ei ddiweddarau. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod.

## Manylion cysylltu

88. Efallai y bydd ymholiadau ynghylch rhoi gweithdrefnau y manylir arnynt yn y canllawiau hyn ar waith yn dymuno cael cyngor gan dîm Gweithrediadau Llaeth yr ASB drwy'r cyswllt canlynol:

E-bost: [Dairyops@food.gov.uk](mailto:Dairyops@food.gov.uk)

89. Dylid gofyn cwestiynau ynghylch y ddogfen ganllaw hon i'r ASB drwy un o'r cysylltiadau canlynol:

E-bost: [PPfoodhygiene@food.gov.uk](mailto:PPfoodhygiene@food.gov.uk)

E-bost: [Food.Policy.Wales@food.gov.uk](mailto:Food.Policy.Wales@food.gov.uk)

## **Atodiad I: Deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol**

Mae'r atodiad hwn yn rhestru'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol y cyfeiriwyd atynt yn nhestun y ddogfen hon.

### **Deddfwriaeth yr UE**

[Rheoliad \(CE\) Rhif 852/2004 ynghylch hylendid bwydydd](#)

[Rheoliad \(CE\) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid](#)

[Rheoliad Rheolaethau Swyddogol \(UE\) 2017/625](#)

[Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn \(UE\) 2019/627](#)

[Rheoliad \(CE\) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd](#)

[Rheoliad \(CE\) Rhif 178/2002 ar ddiogelwch bwyd, y gallu i olrhain, tynnu/galw cynnyrch yn ôl](#)

[Rheoliad \(CE\) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr](#)

[Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ar ansawdd dŵr i'w yfed gan bobl](#)

[Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/42/EC ar beiriannau, a diwygio Cyfarwyddeb 95/16/EC](#)

[Rheoliad y Comisiwn UE \(Rhif 37/2010\) ar sylweddau ffarmacolegol weithredol a'u dosbarthiad ynghylch terfynau gweddillion uchaf mewn bwydydd sy'n dod o anifeiliaid](#)

### **Deddfwriaeth Genedlaethol**

[Rheoliadau Hylendid Bwyd \(Cymru\) 2006](#)

[Rheoliadau Hylendid Bwyd \(Cymru\) 2006](#)

[Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Cymru\) 2014](#)

[Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Cymru\) 2014](#)

[Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004](#)

[Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat \(Lloegr\) 2018](#)

[Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat \(Cymru\) 2017](#)



[Rheoliadau Cyflenwad Dŵr \(Ansawdd Dŵr\) 2016](#)

[Rheoliadau Cyflenwad Dŵr \(Ansawdd Dŵr\) 2018](#)

## **Canllawiau cyffredinol**

[ASB, Bwyd mwy diogel, busnes gwell](#)

[ASB, Canllawiau hyfforddi staff](#)

[Sefydliad Iechyd y Byd, Techneg golchi dwylo dda](#)

[FSA, HACCP](#)

[Nodiadau Canllawiau ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd ar ddiwyddiadau bwyd](#)

[Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Rheoli sylweddau sy'n beryglus i arlwyio ym maes iechyd yn benodol](#)

[Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Storio cynhyrchion cemegol \(ar raddfa fach\)](#)

[Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Gwanhau crynodiadau cemegol](#)

[Canllawiau ar y gallu i olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl o fewn diwydiant bwyd y Deyrnas Unedig \(DU\)](#)

[Canllawiau i Awdurdodau Gorfodi ar Ddefnyddio Cyflenwadau Dŵr Preifat ar Safleoedd Cynhyrchu Cynradd](#)

[Canllaw Ymarferol ar gyfer Cynhyrchwyr Llaeth](#)

[Brwcelosis: Sut i adnabod ac adrodd am y clefyd](#)

[Clefydau hysbysadwy mewn anifeiliaid](#)

[Canllawiau ar Ddeunydd Pecynnu a Labelu](#)

[Gwybodaeth a chanllawiau ar brofi llaeth am weddillion gwrthfotig](#)

[Oes silff bwyd parod i'w fwyta mewn perthynas â L. monocytogenes – Canllawiau i weithredwyr busnesau bwyd](#)


[Dogfen ganllaw ar astudiaethau oes silff Listeria monocytogenes ar gyfer bwydydd parod i'w bwyta o dan Reoliad \(CE\) Rhif 2073/2005, 15 Tachwedd 2005, ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd](#)

## Atodiad II: Tabl yn dangos rhaniad dyletswyddau gorfodi a rheolaethau swyddogol rhwng yr ASB ac awdurdodau lleol

Rheolaethau	Awdurdod Gorfodi
Gorfodi rheolaethau diogelwch a hylendid bwyd mewn daliadau llaeth cynhyrchu cynradd ar gyfer pob rhywogaeth (cyn pasteureiddio).	Yr ASB yw'r Awdurdod Gorfodi
Gorfodi rheolaethau swyddogol ar gyfer <b>llaeth buwch i'w yfed yn amrwd i'w werthu'n</b> uniongyrchol i'r defnyddiwr.	Yr ASB yw'r Awdurdod Gorfodi
Cyflwyno <b>rhaglen samplu dilysu llaeth buwch i'w yfed yn amrwd o</b> dan Atodlen 6 (TVC's/Coliformau).	Yr ASB yw'r Awdurdod Gorfodi
Cyflwyno <b>rhaglen samplu dilysu llaeth yfed amrwd o</b> rywogaethau heblaw gwartheg, o dan Atodlen 6, (defaid, geifr ac ati).	Yr awdurdod lleol yw'r Awdurdod Gorfodi
Gorfodi'r label <b>rhybuddio iechyd</b> sy'n ofynnol ar bwynt gwerthu ar gyfer <b>llaeth buwch i'w yfed yn amrwd i'w werthu'n</b> uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol.	Yr ASB yw'r Awdurdod Gorfodi
Gorfodi'r label <b>rhybuddio iechyd</b> sy'n ofynnol ar bwynt gwerthu ar gyfer <b>llaeth yfed amrwd</b> rhywogaethau heblaw buchod.	Yr awdurdod lleol yw'r Awdurdod Gorfodi <sup>1</sup>
Arolygu a gorfodi prosesau botelu a pheycynnu ar gyfer llaeth yfed amrwd (pob rhywogaeth)	Yr awdurdod lleol yw'r Awdurdod Gorfodi <sup>1</sup>
Gorfodi <b>rheolaethau llwybrau gwerthu ar gyfer llaeth buwch i'w yfed yn amrwd</b> yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol	Yr ASB yw'r Awdurdod Gorfodi
Prosesu pellach ar gynnyrch llaeth h.y. caws, iogwrt, hufen iâ. Gweithgareddau wedi'u cymeradwyo	Yr awdurdod lleol yw'r Awdurdod Gorfodi

<sup>1</sup> Gall awdurdod lleol gyfeirio ar Gyngor Dosbarth neu Gyngor Sir yn yr achosion hyn, yn dibynnu ar ba awdurdod sydd â chyfrifoldeb dros orfodi deddfwriaeth labelu

## Atodiad III: Llwybrau gwerthu llaeth bwch i'w yfed yn amrwd



### Teitl y ddelwedd: Llwybrau marchnata a ganiateir ar gyfer gwerthu llaeth bwch i'w yfed yn amrwd i'r defnyddiwr ei hun

Mae'r ddelwedd uchod yn dangos y ffyrdd y gall daliad sy'n cynhyrchu llaeth bwch i'w yfed yn amrwd werthu eu llaeth i'r defnyddiwr ei hun. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- I ddsbarthwr sy'n gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr ei hun
- O siop fferm o fewn cwrtil y daliad sy'n gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr ei hun
- O beiriant gwerthu o fewn cwrtil y daliad sy'n gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr ei hun
- O westy gwely a brecwast o fewn cwrtil y daliad sy'n gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr ei hun

- Trwy werthu ar y rhyngrwyd o'r daliad sy'n cynhyrchu yn uniongyrchol i'r defnyddiwr ei hun
- O giât y fferm yn uniongyrchol i'r defnyddiwr ei hun
- Mae stondin mewn marchnad ffermwyr yn cael ei hystyried yn estyniad o giât y fferm fel y gall stondin werthu llaeth yfed amrwd i'r defnyddiwr ei hun

## **Atodiad IV: Rhestr o dermau**

**Coliformau** – Bacteria sy'n bresennol yn llwybr treulio anifeiliaid, gan gynnwys pobl, ac sydd i'w cael yn eu gwastraff. Maent hefyd i'w canfod mewn planhigion a phridd.

**Halogiad** – Perygl yn bresennol neu'n cael ei gyflwyno h.y. baeddu, bacteria, cemegion, gwrthfotigau.

**I'w fwyta/yfed yn uniongyrchol gan bobl** – Bwyd y bwriedir ei fwyta'n uniongyrchol gan y defnyddiwr yn y cyflwr y'i cafwyd, heb ei brosesu na'i drin ymhellach.

**Gweithredwr Busnes Bwyd** – Mae [Reoliad \(CE\) Rhif 178/2002](#) yn diffinio 'gweithredwr busnes bwyd' fel y person(au) naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni o fewn y busnes bwyd dan eu rheolaeth. Ymhlith yr enghreifftiau mae ffermwr, cigydd neu berchennog bwyty.

**Maen prawf diogelwch bwyd** – Maen prawf sy'n diffinio pa mor dderbyniol yw cynnyrch neu swp o fwyd sy'n berthnasol i gynhyrchion a gaiff eu rhoi ar y farchnad

**Cyfartaledd geometrig** – Cyfartaledd (neu gymedr) gwerth nodweddiadol rhifau a gyfrifir trwy ddefnyddio lluoswm eu gwerthoedd ac nid y swm (lluosi'r rhifau ac yna defnyddio gwraidd y rhif hwn e.e. sgwâr os yw'n ddau, ciwb os yw'n dri).

**Perygl** – Asiant biolegol, cemegol neu ffisegol mewn bwyd sydd â'r potensial i achosi niwed i iechyd y defnyddiwr.

**Arolygiad** – Archwilio unrhyw agwedd ar fwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid er mwyn gwirio bod yr agwedd(au) o'r fath yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y gyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a rheolau iechyd a lles anifeiliaid.

**Prif gyflenwad dŵr** – Dŵr a gyflenwir gan y system cyflenwi dŵr gyhoeddus.

**Y lefel uchaf o weddillion a ganiateir (MRL)** – Y crynodiad mwyaf o weddillion ar ôl defnyddio cynnyrch meddyginiaethol milfeddygol a gaiff ei gydnabod yn dderbyniol mewn bwyd neu ar fwyd. Diffiniad llawn yn unol â [Rheoliad y Cyngor \(CEE\) Rhif 2377/90](#), Erthygl 1. Mae cyngor hefyd ar gael ar [wefan VMD](#).

**Prynwr cyntaf Ilaeth** – Gweithredwr busnes bwyd sy'n prynu Ilaeth cyfanwerthol o ffermydd/cynhyrchwyr Ilaeth i'w drin neu ei brosesu o fewn ei fusnes.

**Monitro** – Rhaglen o wiriadau a drefnwyd ymlaen llaw (arsylwadau neu fesuriadau) o fewn cyfyngiadau beirniadol a/neu 'gyfreithiol'. Y bwriad yw gwirio a yw rheolaethau mewn perygl o fethu a phennu'r angen i gymryd camau cywirol.

**Pathogenau** – Micro-organebau fel bacteria a feirysau niweidiol sy'n achosi clefydau.

**Cyfrif platiau** – Fe'i gelwir hefyd yn Gyfanswm Cyfrif Hyfyw (TVC), sy'n rhoi amcangyfrifiad meintiol o grynodiad micro-organebau fel bacteria, burum neu sborau llwydni mewn sampl. Mae'r cyfrif hwn yn nodi nifer yr unedau sy'n ffurfio cytrefi (cfu) fesul g/ml o'r sampl.

**Dŵr yfadwy** – Dŵr sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol a nodir yng [Nghyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC](#), 3 Tachwedd 1998, ar ansawdd y dŵr y bwriedir i'w yfed gan bobl.

**Cyflenwad dŵr preifat** – Unrhyw gyflenwad dŵr nad yw'n tarddu o'r prif gyflenwad dŵr cyhoeddus.

**Llaeth yfed amrwd** – Llaeth a gynhyrchir gan secretiad chwarennau llaeth anifeiliaid a ffermir nad yw wedi'i gynhesu i dymheredd uwch na 40°C neu wedi cael unrhyw driniaeth sy'n cael yr un effaith. Y bwriad yw i'r llaeth gael ei yfed yn uniongyrchol.

**Yn barod i'w fwyta** – Bwyd a fwriadwyd gan y cynhyrchydd neu'r gwneuthurwr i'w fwyta'n uniongyrchol gan bobl heb yr angen i'w goginio neu ei brosesu ymhellach i ddileu, neu leihau i lefel dderbyniol, ficro-organebau sy'n peri pryder.

**Galw cynnyrch yn ôl** – Pan ofynnir i gwsmeriaid ddychwelyd/gwaredu cynnyrch bwyd. Efallai y bydd angen gwneud hyn os oes problem ddifrifol gyda'r bwyd. Gellir dod o hyd i wybodaeth am reoli digwyddiadau bwyd ar [dudalen we'r ASB ar ddigwyddiadau](#).

**Risg** – Y siawns neu'r tebygolrwydd y bydd person yn cael ei niweidio neu'n profi effaith iechyd andwyol os yw'n agored i berygl.

**Samplu** – Cymryd bwyd anifeiliaid neu fwyd neu unrhyw sylwedd arall (gan gynnwys yr amgylchedd) sy'n berthnasol i gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd anifeiliaid neu fwyd neu i iechyd anifeiliaid, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd neu reolau iechyd anifeiliaid drwy ddadansoddi.

**Oes silff** – Y cyfnod y mae'r cynnyrch yn cynnal ei ddiogelwch a'i addasrwydd microbiolegol ar dymheredd storio penodol a, lle bo hynny'n briodol, o dan amodau storio a thrin penodol.

**Cyfrif Celloedd Somatig (SCC)** – Y prif ddangosydd o ansawdd llaeth ac **mae'n cael ei feintioli fel nifer y celloedd fesul ml o laeth.**

**Gwiriadau dilysu** – Cyn gweithredu System Rheoli Diogelwch Bwyd, rhaid dilysu ei chynnwys. Mae hyn er mwyn sicrhau y bydd y system yn arwain at gynhyrchu bwyd

diogel. Y ffocws yw sicrhau bod y peryglon a nodwyd yn gyflawn, yn gywir a bod rheolaethau addas ar waith.

**Gwirio** – Mae hyn yn golygu cynnal profion neu wiriadau, gwirio bod y gweithdrefnau'n cael eu cadw ac adolygu'r System Rheoli Diogelwch Bwyd i sicrhau bod y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn ddiogel.

**Tynnu cynnyrch yn ôl** – Y broses o dynnu cynnyrch o'r farchnad. Efallai y bydd angen i hyn ddigwydd os oes problem ddifrifol gyda chynnyrch bwyd. Gweler [tudalen Digwyddiadau Bwyd yr ASB](#).

## Trwydded Llywodraeth Agored

© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r [Drwydded Llywodraeth Agored](#) fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle rydym ni wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

I weld y drwydded hon:

Ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/>

E-bost [psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk)

neu ysgrifennwch at: Tîm Polisi Gwybodaeth  
Yr Archifau Cenedlaethol  
Kew  
Llundain  
TW9 4DU

Ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn:

Ymholiadau: <https://www.food.gov.uk/cy/contact/businesses/find-details>



Dilynwch ni ar Twitter: [@FSACymru](https://twitter.com/FSACymru)



Hoffwch ni ar Facebook: <http://facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd>